

Eisteddfod Gadeiriol Llanarth

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanarth yn neuadd y pentref ar ddydd Sadwrn Hydref 8fed. Ein beirniaid eleni oedd Meinir Jones Parry, Caerfyrddin (Cerdd) a Iola Wyn, Sanclêr (Ilefaru). Tudur Jones, Tywyn oedd y cyfeilydd dawnus. Enillydd Cwpan Her Teulu Caeralaw i'r llefarydd mwyaf addawol o dan 12 oed oedd Greta Jones, Caerfyrddin ac Ella Gwenlli, Blaenpennal dderbyniodd Cwpan Her Teulu Brynawen i'r unawdydd mwyaf addawol o dan 12. Cyflwynwyd cwpan her Isabel Jones er cof am ei rhieni, i'r perfformiad mwyaf cofiadwy yn y cystadlaethau dros 12 oed i Fflur McConnell, Aberaeron. Mrs Delor James, Alltyblaca oedd beirniad yr adran lenyddol. Enillydd Gwobr Llenyddiaeth yr Ifanc oedd Deio Ifan, Llandysul sydd yn ddisgybl ym mlwyddyn 13 Ysgol Bro Teifi. Derbyniodd Deio ganmoliaeth uchel iawn am ei waith a hynny mewn cystadleuaeth o safon uchel lle daeth saith ar hugain o ddarnau llenyddol o dan chwydd wydr y beirniad yn y gystadleuaeth. Llywydd yr eisteddfod oedd Catrin Enid, Trelluest, Caerdydd. Mae Catrin, neu Catrin Beechwood fel mae'n cael ei hadnabod yn Llanarth, yn un o ferched y pentref ac wedi troedio llwyfan eisteddfod Llanarth pan yn blentyn. Diolch iddi am ei geiriau caredig a theimladwy ar ddiwrnod yr eisteddfod ac am ei rhodd hael. Cynhaliwyd "Eisteddfod Hwyllog, Fywiog" gyda'r hwyr a hynny o dan arweiniad hwylus y Cynghorydd Bryan Davies, Synod Inn. Bu llawer o chwerthin a mwynhau gyda thimoedd ardal Llanarth, ardal Talgarreg a thîm Tafarn y Vale, Dyffryn Aeron yn cystadlu, a chafodd y beirniaid Cennydd a Naomi Jones, Pontsian gryn dipyn o hwyl yn beirniadu'r "ddawns flodau wreiddiol", y côr hwiangerddi ac amryw o gystadlaethau eraill ar y noson. Llongyfarchiadau i dafarn y Vale ar ddod i'r brig! Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd eisteddfod Llanarth eleni eto ac edrychwn ymlaen at eisteddfod 2023!